De Cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Police and Crime Commissioner
South Wales

Grŵp Atebolrwydd a Dilysrwydd yr Heddlu (PALG)

Pecyn Gwybodaeth

Trosolwg o ddiben PALG

Cylch Gorchwyl

Caiff ei gadeirio gan: Un o aelodau annibynnol o'r gymuned PALG

Amlder: Chwarterol

Cyfrifoldeb Ysgrifenyddol: Tîm y Comisiynydd

Yn bresennol

Tîm y Comisiynydd: Y Prif Weithredwr, Arweinydd Strategol (Craffu, Sicrwydd a Chydraddoldeb), Swyddogion Polisi (Craffu a Chydraddoldeb) ac aelodau eraill o dîm y Comisiynydd fel y bo'n briodol ac yn dibynnu ar y pynciau.

Heddlu De Cymru: Y Dirprwy Brif Gwnstabl, Prif Gwnstabliaid Cynorthwyol (fel y bo'n berthnasol), Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol (a swyddogion/staff eraill drwy wahoddiad fel y bo'n berthnasol)

Aelodaeth – Sefydliadau partner o'r sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol, yn ogystal ag aelodau annibynnol o'r gymuned sydd â diddordeb mewn cydraddoldeb, amrywiaeth, cymunedau, dioddefwyr trosedd, a/neu atal troseddau.

Diben Cyffredinol y Bwrdd

Galluogi sefydliadau allanol ac aelodau annibynnol o'r gymuned i ymddwyn fel cyfaill beirniadol i Heddlu De Cymru, gan gefnogi Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn ei rôl graffu, a sicrhau bod Heddlu De Cymru yn atebol, yn dryloyw ac yn ddilys.

Swyddogaethau Penodol y Panel

- Darparu heriau cadarn a chymorth adeiladol er mwyn dylanwadu'n briodol ar ddilysrwydd a thegwch polisïau ac arferion Heddlu De Cymru.

- Helpu'r Comisiynydd i fynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo triniaeth deg ac arferion dilys ym mhob rhan o amgylchedd gwaith Heddlu De Cymru ac wrth ymdrin â chymunedau De Cymru.

- Ymgymryd â phrosesau goruchwylio a chraffu annibynnol ar Heddlu De Cymru mewn perthynas â'r canlynol:
    - Materion tegwch yn y gwaith
    - Annog amrywiaeth yn y gweithle

    - Defnyddio pwerau plismona (gan gynnwys stopio a chwilio a'r defnydd o rym)
    - Hygyrchedd a thryloywder system ymddygiad a chwynion yr heddlu
    - Datblygu polisïau, prosiectau ac arferion a'u rhoi ar waith
    - Ymgysylltu a rhyngweithio â'r cyhoedd
    - Gwneud cynnydd yn erbyn amcanion cydraddoldeb a osodir fel rhan o Ddyletswyddau Penodol y Ddeddf Cydraddoldeb
    - Ymddiriedaeth a hyder yn y gwasanaeth a ddarperir gan Heddlu De Cymru

- Darparu safbwynt allanol ar faterion plismona o ran eu heffaith ar ganfyddiadau'r cyhoedd ac ar y gymuned, gan gynnwys dioddefwyr a throseddwyr.

- Darparu safbwynt ‘cyfaill beirniadol’ ar gamau i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hygyrchedd ym mhob rhan o Heddlu De Cymru ar gyfer yr holl nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

- Darparu argymhellion i leihau unrhyw anghydraddoldeb wrth blismona ac i wella canfyddiadau'r cyhoedd o'r heddlu

- Monitro cynnydd argymhellion perthnasol gan yr Arolygiaeth

- Rhannu ymchwil ac arferion gorau er mwyn sicrhau y caiff y dulliau gweithredu gorau eu hystyried yn Heddlu De Cymru

Presenoldeb ac adborth y Panel

- Bydd disgwyl i Aelodau PALG fynychu cyfarfodydd mor aml â phosibl ac ymddiheuro ymlaen llaw os na allant fynychu. Os na fydd sefydliad neu unigolyn wedi cael ei gynrychioli mewn tri chyfarfod yn olynol, efallai y gofynnir iddo gamu i lawr er mwyn i sefydliad/unigolyn arall allu cymryd ei le.

- Mae Tîm y Comisiynydd yn cadw'r hawl i ganslo neu ohirio cyfarfod PALG os na fydd nifer digonol wedi cadarnhau y byddant yn mynychu ymlaen llaw.

- Os na fydd y Cadeirydd ar gael i fynychu'r cyfarfod, caiff y cyfarfod ei gadeirio gan y Prif Weithredwr.

- Bydd y Cadeirydd a Thîm y Comisiynydd yn sicrhau bod mewnbwn ac adborth PALG yn cael eu cyfleu drwy strwythur llywodraethu Heddlu De Cymru a'u defnyddio cyn belled â phosibl. Bydd aelodau PALG yn cael gwybod sut mae eu hadborth wedi arwain at gam gweithredu a/neu newid.

Aelodau Annibynnol o'r Gymuned

- Caiff aelodau annibynnol eu penodi i'r panel drwy broses recriwtio agored.

- Mae'n rhaid i aelodau annibynnol o'r gymuned fyw neu weithio yn ardal Heddlu De Cymru.

- Bydd aelodau annibynnol o'r gymuned yn gwasanaethu am hyd at dair blynedd, cyn bod angen gwneud cais eto am gyfnod arall o dair blynedd.

- Caiff Cadeirydd PALG ei benodi o'r garfan o aelodau annibynnol o'r gymuned yn dilyn proses enwebu a phleidleisio.

- Caiff aelodau annibynnol o'r gymuned eu had-dalu am yr holl dreuliau teithio rhesymol yr eir iddynt i fynychu cyfarfodydd PALG a chyflawni dyletswyddau cysylltiedig.

- Caiff aelodau annibynnol o'r gymuned eu fetio i lefel ofynnol.

- Mae'n bosibl y gwahoddir aelodau annibynnol i gymryd rhan mewn grwpiau cynghori ar ddigwyddiadau critigol a arweinir gan yr heddlu a/neu'r Comisiynydd pan gaiff y rhain eu sefydlu. Rôl aelodau fydd rhoi cyngor a mewnbwn cymunedol annibynnol mewn perthynas â digwyddiadau, materion neu gwynion gweithredol penodol. Bydd hyn yn ogystal â mynychu cyfarfodydd PALG a bydd yn ddewisol yn unig.

- Hefyd, caiff aelodau annibynnol eu gwahodd i wneud gwaith sicrhau ansawdd gyda thîm y Comisiynydd fel rhan o'r ‘Panel Craffu ar Fideo Camerâu a Wisgir ar y Corff’, sef un o is-grwpiau PALG. Dylid darllen Cylch Gorchwyl y Panel Craffu ar y cyd â Chylch Gorchwyl PALG.

Sefydliadau a Gynrychiolir

1. Anabledd Dysgu Cymru
2. Race Council Cymru
3. Cymorth i Ferched Cymru
4. Barnardo’s
5. Ffynnu Cymorth i Fenywod
6. Adferiad Recovery
7. Anabledd Cymru
8. Llywodraeth Cymru
9. Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan
10. Race Equality First
11. Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru
12. Sipsiwn a Theithwyr Cymru
13. Oasis Caerdydd
14. Cymorth i Ddioddefwyr
15. Platfform
16. StopHateUK
17. Cynghrair Hil Cymru

Cynrychioli'r Gymuned

Ers 2020, estynnwyd aelodaeth PALG er mwyn cynnwys Aelodau Annibynnol o'r Gymuned sy'n byw neu'n gweithio yn ardal Heddlu De Cymru. Caiff yr aelodau hyn eu penodi drwy broses recriwtio agored a'u fetio i lefel ofynnol. Mae ein haelodaeth yn cynnwys cynrychiolaeth ar gyfer grwpiau Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsryweddol yn ogystal â niwroamrywiaeth.

Themâu i'w hystyried yn barhaus

Gofynnir i aelodau PALG ystyried y newidiadau isod pan gaiff pynciau eu cyflwyno yn y cyfarfodydd.



- Pa mor effeithiol y mae Heddlu De Cymru yn cadw pobl yn ddiogel, ac yn lleihau ac yn mynd i'r afael â throseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol?

- Pa mor effeithiol y mae Heddlu De Cymru yn gweithio i atal troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol?

- Pa mor effeithiol y mae Heddlu De Cymru yn amddiffyn y rheini sy'n agored i niwed?

- Pa mor effeithiol y mae Heddlu De Cymru yn cefnogi dioddefwyr?

The Public	**Y Cyhoedd**
Is there adequate engagement and communication with the public?	A oes gwaith ymgysylltu a chyfathrebu digonol â'r cyhoedd?
What are the public perceptions?	Beth yw canfyddiadau'r cyhoedd?
Is information transparent?	A yw gwybodaeth yn dryloyw?
Are there vulnerability and accessibility considerations?	A oes ystyriaethau o ran natur agored i niwed a hygyrchedd?
Operation Issues	**Materion Gweithredol**
Can practice improvements be made?	A ellir gwella arferion?
Are practices effective/efficient/value for money?	A yw arferion yn effeithiol/effeithlon/rhoi gwerth am arian?
Are officers/staff behaving lawfully and ethically?	A yw swyddogion/staff yn ymddwyn yn gyfreithlon ac yn foesegol?
Equality Impacts	**Effeithiau ar Gydraddoldeb**
Are there possible discrimination or disadvantage issues?	A oes materion posibl yn ymwneud â gwahaniaethu neu anfantais?
How can equality of opportunity be advanced?	Sut y gellir sicrhau cyfle cyfartal?
How can good relationships be fostered with and between minority groups?	Sut y gellir meithrin cydberthnasau da â grwpiau lleiafrifol a rhyngddynt?
Data and Performance	**Data a Pherfformiad**
What does the performance data show?	Beth mae'r data perfformiad yn ei ddangos?
Are there data quality issues?	A oes problemau o ran ansawdd y data?
Are there data gaps?	A oes unrhyw fylchau yn y data?
Are there disproportionality issues?	A oes unrhyw broblemau o ran anghymesuredd?
Internal Policies & Processes	**Polisïau a Phrosesau Mewnol**
What are the internal impacts on fairness for officers/staff?	Beth yw effeithiau mewnol tegwch i swyddogion/staff?
How can a diverse workforce be encouraged?	Sut y gellir annog gweithlu amrywiol?

Adborth Aelodau PALG a Chanlyniadau

Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o'r adborth a gafwyd gan y panel ers sefydlu PALG yn 2017, a sut mae Heddlu De Cymru a thîm y Comisiynydd wedi defnyddio'r adborth hwn.

Dyddiad y cyfarfod	Eitemau allweddol ar yr agenda	Adborth y Panel	Canlyniad
CYFARFODYDD 2017			
06/06/2017	**1.** Boddhad Dioddefwyr Troseddau Casineb ○ Cyflwyniad ar ganfyddiadau ymchwil data ansoddol	**Troseddau Casineb** • Byddai'n ddefnyddiol cael dadansoddiadau manylach o'r rheini a arolygir o gymharu â'r rhai sy'n dioddef troseddau casineb yn ystod y cyfnod adrodd. Manylion i gynnwys nodweddion gwarchodedig a demograffeg. • Cynnwys 'Roma' mewn terminoleg yn y dyfodol a thrafodaethau am gymunedau Sipsiwn a Theithwyr	**Mae'r holl adolygiadau Boddhad Dioddefwyr Troseddau Casineb dilynol bellach yn cynnwys data perfformiad cymaradwy a dadansoddiad o ddemograffeg dioddefwyr.** **Mae hyn bellach wedi'i gynnwys**
11/12/2017	**1.** Defnydd o Rym ○ Cyflwyniad a thrafodaeth **2.** Stopio a Chwilio ○ Perfformiad ○ Fideo addysgol ○ Cerdyn 'Gwybod Eich Hawliau' **3.** Cyfathrebu ac Ymgysylltu ○ Animeiddiad Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb	**Defnydd o Rym** • Dadansoddiad o'r ffigurau mewn data ar y defnydd o rym yn ôl ethnigrwydd i'w gymharu â chymarebau poblogaeth ar gyfer ethnigrwydd. Byddai hyn yn darparu darlun cliriach o anghymesuredd posibl. **Stopio a Chwilio** • Mae'n bosibl nad yw gwybodaeth stopio a chwilio yn cael ei chyfleu i aelodau o'r cyhoedd mewn ffordd sy'n hawdd ei deall (yn enwedig mewn achos o stopio a chwilio).	**Wedi gofyn am hyn ar gyfer setiau data yn y dyfodol** **Mae tîm y Comisiynydd wedi dechrau cynnal ymarfer dip-samplu mewn perthynas â fideo gamerâu a wisgir ar y corff er mwyn gwirio cwrteisi ac esboniadau a roddir i'r cyhoedd. Mae Strategaeth Ymgysylltu newydd y**

		Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb • Rhannu'r animeiddiad Troseddau Casineb â'r Rhaglen Cyswllt Ysgolion a'r Comisiynydd Plant er mwyn cynyddu allgymorth.	**Comisiynydd yn cynnwys nifer o ymrwymiadau ar waith ymgysylltu â'r cyhoedd mewn perthynas â stopio a chwilio.** **Mae'r animeiddiad hwn bellach wedi cael ei rannu â thimau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol a Phwyntiau Cyswllt Unigol perthnasol.**
CYFARFODYDD 2018			
06/03/2018	**1.** Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb ○ Trosolwg o'r amcanion ○ Y diweddaraf am gynnydd **2.** Adolygiad gan Gymheiriaid ynghylch Anabledd ○ Trafodaeth am Amcanion Cydraddoldeb yn y dyfodol	**Troseddau Casineb** • Mae dealltwriaeth o droseddau casineb a chysondeb gwasanaethau yn amrywio mewn meysydd gwahanol o'r heddlu. Argymell y dylid defnyddio dull cyson ac ailystyried hyfforddiant ar droseddau casineb. **Amcanion Cydraddoldeb** • Er mwyn adolygu amcanion cydraddoldeb HDC, mae'n bosibl y byddai'n ddefnyddiol ystyried amcan ar fod yn agored i niwed yn ei ystyr ehangaf, gyda phwyslais ar anghenion amrywiol pobl hŷn mewn perthynas â throseddau yn ogystal â'r rhai ag anghenion niwroamrywiaeth. Yna byddai angen ystyried ymwybyddiaeth swyddogion o'r materion hyn.	**Mae tîm y Comisiynydd wedi gofyn i hyn gael ei ystyried gan Heddlu De Cymru.** **Mae'r awgrymiadau hyn bellach yn cael eu cynnwys mewn fersiwn ddrafft o'r Cynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb (2018-21) diweddaraf.**
21/06/2018	**1.** Prentisiaethau'r Heddlu ○ Asesiad o Effaith y Fframwaith Cymwysterau Addysg Plismona (PEQF) ar Gydraddoldeb **2.** Adroddiad Asesu Strategol HDC	**PEQF** • Pryderon y gall model PEQF o recriwito i'r heddlu fod yn llai deniadol i bobl Ddu ac ethnig leiafrifol a phobl hŷn. Dylid ystyried mesurau lliniaru.	**Ymdrinnir â chynrychiolaeth pobl Ddu ac ethnig leiafrifol drwy raglen gweithredu cadarnhaol y Gweithlu Cynrychioliadol. Wedi gofyn i HDC ystyried gwaith i ddenu pobl hŷn.**

	3. <u>Technoleg Adnabod Wynebau Awtomatig</u> ○ Cyflwyniad a thrafodaeth	• Pryderon bod posibilrwydd na chaiff anghenion niwroamrywiaeth, megis anghenion y rhai ag awtistiaeth, syndrom Asperger ac ADHD, eu hystyried yn y system PEQF newydd. Mae hyn yn ymwneud yn arbennig â'r elfen profion seicometrig cyn gwneud cais. Mesurau lliniaru i'w hystyried.	**I'w ystyried wrth ddadansoddi'r defnydd cyntaf o'r prawf seicometrig ac fel rhan o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.**
		• Pryderon am nad yw anghenion addysgol yr uchod yn cael eu diwallu yn aml, y gallai fod effaith andwyol ar eu tebygolrwydd o fod wedi cyrraedd y lefel addysgol ofynnol heb unrhyw fai arnynt hwy. Mesurau lliniaru i'w hystyried fel uchod.	**Fel uchod**
		• Cytundeb y dylai opsiynau gweithio hyblyg a threfniadau mamolaeth gael eu cyfleu i'r rhai sy'n ystyried ymgymryd â'r PEQF er mwyn osgoi unrhyw gamsyniadau ynghylch cyfleoedd astudio.	**Gofynnwyd i Heddlu De Cymru gymryd camau yn unol â hyn.**
		• Argymhelliad y dylai'r Asesiad o Effaith y PEQF ar Gydraddoldeb a materion a drafodwyd yn ystod y cyfarfod PALG (uchod) gael eu hystyried yn ystod proses ymgynghori allanol â'r rhai yr effeithir arnynt.	**Gofynnwyd i Heddlu De Cymru gymryd camau yn unol â hyn.**
		<u>AFR</u> • Ystyried dichonoldeb monitro'r broses o lunio rhestrau gwylio a ddefnyddir mewn technoleg AFR (chwilio am anghymesuredd ac ati).	**Hwylusodd Heddlu De Cymru sesiwn gyhoeddus a alluogodd cynrychiolwyr/ aelodau o'r gymuned i feithrin dealltwriaeth fanwl o'r defnydd o AFR (gan gynnwys y**

		• Ystyried cysylltu ag elusennau unigolion coll mewn perthynas â manteision defnyddio technoleg AFR	**rhesymeg y tu ôl i lunio rhestrau gwylio) yn ogystal ag arddangosiad mewn cerbyd AFR er mwyn arsylwi ar y dechnoleg yn cael ei defnyddio.** **Mae hyn yn cael ei ystyried ar gyfer y dyfodol (pan geir tystiolaeth bellach am ddefnydd at y diben hwn).**
24/10/2018	**1.** Y diweddaraf am Iechyd Meddwl **2.** Stopio a Chwilio ○ Dip-samplu a Chamerâu Fideo a Wisgir ar y Corff	**Iechyd Meddwl** • Roedd diddordeb gan y grŵp yn y ffordd y gellid teilwra datblygiadau iechyd meddwl yr heddlu yn unol ag anghenion pobl ifanc	**Diweddariad i'w ddarparu yn ddiweddarach yn 2019 ar sut mae'r cynigion iechyd meddwl yn datblygu, gan gynnwys sut maent wedi'u teilwra i bobl ifanc.**
12/12/2018	**1.** Llinellau Cyffuriau **2.** Adroddiad Asesu Strategol HDC (y defnydd o rym, stopio a chwilio, ac ati) **3.** Amcanion Cydraddoldeb Strategol Drafft	**Llinellau Cyffuriau** • Pryderon bod y lluniau o droseddwyr yn y cyflwyniad ar Linellau Cyffuriau gan yr heddlu o bobl Ddu ac ethnig leiafrifol yn bennaf. Pryderon ynghylch y neges a'r rhagfarn ddiarwybod bosibl y gallai hyn ei gynnal. **Amcanion Cydraddoldeb** • Cefnogwyd yr amcanion cydraddoldeb drafft i raddau helaeth gyda chais am bwyslais mwy eglur o fewn yr amcan pobl hŷn. Teimlwyd y byddai'n well tynnu'r agwedd ar yr amcan a oedd yn canolbwyntio ar ganfyddiadau o ddiogelwch ac, yn hytrach, ganolbwyntio'n bennaf ar ansawdd y gwasanaeth. • Cais am adroddiad terfynol ar yr hyn a gyflawnwyd o dan y Cynllun Cydraddoldeb blaenorol er mwyn pennu lefelau llwyddiant ac a yw'r gwaith wedi cael ei brif ffrydio ar gyfer y dyfodol bellach.	**Gofynnodd tîm y Comisiynydd am adroddiad ar ddemograffeg ethnigrwydd y rheini sy'n rhan o Linellau Cyffuriau yn Ne Cymru er mwyn deall y sefyllfa yn well. I'w gyflwyno yng nghyfarfod mis Mawrth 2019.** **Amcanion drafft wedi'u llunio a'u cwblhau gan gadw sylwadau PALG mewn cof (gan gynnwys y rheini a ddarparwyd gyntaf ym mis Mawrth 2018).** **Mae tîm y Comisiynydd wedi gofyn am i adroddiad terfynol gael ei ddatblygu.**

CYFARFODYDD 2019			
13/03/2019	**1.** Adroddiad Demograffeg Llinellau Cyffuriau **2.** Dull Heddlu De Cymru o ymateb i Waith Rhyw	**Llinellau Cyffuriau** • Ailystyried adborth blaenorol gan PALG • Croesawodd aelodau PALG y cyfle i ailystyried llinellau cyffuriau yn y dyfodol er mwyn ymchwilio ymhellach i'r materion a oedd yn gorgyffwrdd. **Gwaith Rhyw** • Pryder bod diffyg dadansoddiad o niferoedd, graddfa a demograffeg gweithwyr rhyw. Trafododd y grŵp bwysigrwydd cael gwell dealltwriaeth o dueddiadau, achosion, risgiau, dylanwadau a ffactorau sy'n arwain at waith rhyw, megis dyledion, problemau iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, neu orfodaeth gan bartïon camdriniol. Byddai hyn yn helpu i lywio ymatebion atal ac ymyrryd a mesurau cefnogi.	**O ganlyniad i'r adborth a gafwyd gan aelodau PALG yn ystod y cyfarfod blaenorol, mae'r Prif Uwch-arolygydd bellach wedi llunio adroddiad ar y dadansoddiad demograffig o unigolion a oedd yn gysylltiedig â Llinellau Cyffuriau. Rhannwyd hwn ag aelodau PALG i'w drafod yn ystod y cyfarfod hwn. Yn ogystal â hyn, roedd y cyflwyniad a oedd yn cael ei ddefnyddio i ddarparu mewnbwn i asiantaethau partner hefyd wedi cael ei ddiwygio yn dilyn pryderon ynghylch ei neges a rhagfarn ddiarwybod bosibl o ganlyniad i'r delweddau a ddefnyddiwyd.** **Cais i ddod o hyd i ddata sydd ar gael am weithwyr rhyw a'u rhannu yng nghyfarfod nesaf PALG.** **Yr eitem i gael ei hailystyried pan gaiff canfyddiadau Prifysgol Bryste eu cyhoeddi ar y pwnc hwn.** **Tîm y Comisiynydd i ystyried sesiynau is-grŵp yn y dyfodol**

12/06/2019	**1.** <u>Ymchwiliad at Wraidd y Mater y Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd – Troseddau Casineb</u> ○ Adroddiad ar y canfyddiadau ○ Casgliadau ac argymhellion **2.** <u>Cwynion Cyhoeddus – Heddlu De Cymru</u> ○ Grwpiau lleiafrifol yn ymgysylltu â system gwyno'r heddlu	**<u>Troseddau Casineb</u>** • Rhoddodd y grŵp adborth ar bwysigrwydd sicrhau nad oedd rhannau eraill o'r gwasanaeth yn peri unrhyw drallod gormodol neu y gellid ei osgoi i ddioddefwyr Troseddau Casineb – megis ymdrin ag adfer eiddo a ddefnyddir fel tystiolaeth, sicrhau ymwybyddiaeth i staff yn y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n derbyn adroddiadau cychwynnol gan ddioddefwyr. • Roedd adborth hefyd yn cynnwys gwaith da yr heddlu wrth ymateb i'r achosion lleol diweddar o droseddau casineb yn erbyn pobl drawsryweddol. Ond roedd angen gwneud mwy i wella parhad o fewn rolau Swyddogion Troseddau Casineb er mwyn osgoi tanseilio ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd. • Cytunodd y grŵp y byddai camau pellach i godi ymwybyddiaeth, gan gynnwys hyrwyddo astudiaethau achos cadarnhaol lle roedd dioddefwyr wedi cael eu cefnogi gan yr heddlu, yn helpu i gynyddu hyder dioddefwyr i roi gwybod am achosion i'r heddlu. **<u>Cwynion gan y Cyhoedd</u>** • O ganlyniad i sesiynau grŵp rhyngweithiol, gallai aelodau PALG drafod pwysigrwydd dealltwriaeth grwpiau ethnig lleiafrifol o driniaeth anghymesur, eu tueddiad i gyflwyno cwyn, cymhlethdodau'r broses, ac ofnau ynghylch dial	**Bydd tîm y Comisiynydd yn gweithio gydag adran gyfathrebu Heddlu De Cymru i sicrhau bod adborth a geir gan ddioddefwyr ac asiantaethau partner yn llywio dulliau cyfathrebu yn y dyfodol.** **Caiff hyn ei ymgorffori fel rhan o'r gwaith allgymorth a arweinir gan y Safonau Proffesiynol. Mae sesiynau hyfforddiant ar eirioli wedi'u cynllunio ar gyfer 2020 a bydd yn cynnwys rhoi hyfforddiant i eiriolwyr enwebedig ar y broses gwyno fel eu bod yn gallu cefnogi defnyddwyr gwasanaethau.** **Mae Heddlu De Cymru eisoes wedi ymchwilio i byrth a dulliau gwahanol i annog pobl i roi gwybod am droseddau casineb. Bydd tîm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a grëwyd yn ddiweddar yn datblygu'r agenda hyder yn y cyhoedd.** **Cynigiodd yr Heddlu y cyfle i aelodau PALG gymryd rhan yn eu hymarferion craffu mewnol wrth adolygu data ar droseddau casineb, yn enwedig wrth nodi agweddau anghymesur.** **Adborth ysgrifenedig i gael ei goladu mewn adroddiad i'r Heddlu a'i rannu â PALG yn y cyfarfod nesaf.**

		pe bai cwyn yn cael ei gwneud. Trafodwyd effeithiolrwydd dulliau cyfathrebu am system gwyno'r heddlu hefyd. • Pryderon nad yw'r cyhoedd yn deall gwybodaeth am hawliau arestio/stopio a chwilio yn dda. Os nad yw aelodau o'r cyhoedd yn deall eu bod wedi cael eu trin yn anghymesur, yna byddent yn annhebygol o wneud cwyn yn erbyn yr heddlu. • Ystyried datblygu gwybodaeth hygyrch am y broses gwyno a fformatau hawdd ar gyfer gwneud cwyn.	**Mae'r Heddlu yn ystyried cynnwys sut i ymdrin â chwynion yn yr hyfforddiant i Ringylliaid.** **Caiff dulliau hygyrch a hawdd eu deall eu cynnwys fel rhan o broses y Comisiynydd i ddiwygio'r system gwyno.**
11/09/2019	**1.** Y diweddaraf am Ymchwiliad at Wraidd y Mater y Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd – Stelcio, Aflonyddu a Rheolaeth drwy Orfodaeth **2.** Stopio a Chwilio – Y defnydd o Adran 60 **3.** PALG – Cynlluniau ar gyfer y grŵp yn y dyfodol	**Stelcio, Aflonyddu a Rheolaeth drwy Orfodaeth** • Rhoddodd y grŵp adborth ar bwysigrwydd deall dynameg gymhleth, a chynnil weithiau, y troseddau hyn ar gymunedau penodol o bobl agored i niwed, megis mudwyr neu bobl hŷn. Nodwyd bod dulliau cyfathrebu effeithiol, hyfforddiant swyddogion a meithrin hyder y cyhoedd oll yn elfennau hanfodol o wella'r gwasanaethau a ddarperir. **Adran 60 – Stopio a Chwilio** • Awgrymodd y grŵp y byddai'n ddefnyddiol profi dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd, er mwyn mesur canfyddiadau a dealltwriaeth o bwerau stopio a chwilio.	**Mae tîm y Comisiynydd wedi cynnwys rheolaeth drwy orfodaeth o dan yr amcan cyflawni Pobl Hŷn yn y Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd â Heddlu De Cymru.** **Bydd tîm y Comisiynydd yn cynnal gweithdy gyda phobl ifanc ar stopio a chwilio yn ogystal â datblygu arolwg stopio a chwilio i'w ddosbarthu yn ehangach.**

		• Argymhellwyd bod datblygu fformatau hygyrch o wybodaeth stopio a chwilio (megis animeiddiadau/fideos/deunyddiau hawdd eu deall) yn bwysig er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o'u hawliau. • Awgrymodd y grŵp y byddai'n ddefnyddiol defnyddio rôl Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i feithrin dealltwriaeth o 'Adran 60' ymhlith cymunedau. • Croesawodd aelodau PALG y cynnig i ailystyried y mater ymhen blwyddyn er mwyn adolygu'r ffigurau a'r tueddiadau **<u>Cynlluniau ar gyfer PALG yn y Dyfodol</u>** • Cefnogaeth gyffredinol gan y grŵp i'r cynnig i estyn aelodaeth o gynrychiolwyr sefydliadol i aelodau cynghori annibynnol, ac i greu rôl Cadeirydd Annibynnol ar gyfer y grŵp.	**Mae tîm y Comisiynydd wedi datblygu animeiddiad fel fformat hygyrch ar gyfer gwybodaeth stopio a chwilio.** **Mae'r Heddlu wedi datblygu briff ar Adran 60 i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ei ddefnyddio yn y gymuned.** **Caiff eitem ei threfnu ar yr agenda ym mis Medi 2020 er mwyn ailystyried y mater hwn.** **Tîm y Comisiynydd i rannu manylion cynigion y Cynghorydd Annibynnol ag aelodau PALG ar ôl i'r Cylch Gorchwyl a'r proffiliau rôl gael eu cwblhau.**
03/12/2019	**1.** <u>Defnydd o Rym</u> ○ Cyflwyniad ac arddangosiad ○ Adroddiad y Comisiynydd ar Gamerâu Fideo a Wisgir ar y Corff	**<u>Defnydd o Rym</u>** • Roedd diddordeb gan y grŵp mewn deall faint o swyddogion a oedd wedi cael hyfforddiant ar ddefnyddio gynnau Taser a'r gymhariaeth rhwng nifer yr achosion o estyn gwn Taser a defnyddio gwn Taser. • Argymhellodd y grŵp y byddai'n ddefnyddiol astudio'r data ymhellach er mwyn deall y tactegau grym amrywiol a ddefnyddir yn erbyn grwpiau oedran gwahanol a grwpiau ethnig leiafrifol. Mynegwyd pryder y byddai lefelau mwy o rym yn effeithio'n anghymesur ar bobl nad ydynt yn siarad llawer o Saesneg os o	**Yna cyflwynodd yr Heddlu y dadansoddiad y gofynnwyd amdano o nifer y swyddogion a oedd wedi cael hyfforddiant ar ddefnyddio gynnau Taser a'r gymhariaeth rhwng nifer yr achosion o estyn gwn Taser a defnyddio gwn Taser.** **Yna cyflwynodd yr Heddlu y dadansoddiad y gofynnwyd amdano o ddata ar y defnydd o rym, gan gynnwys categorïau defnydd o rym a'r math o drosedd.**

		gwbl, os mai cyfathrebu tactegol oedd y dacteg fwyaf cyffredin a ddefnyddiwyd gan yr heddlu i geisio tawelu digwyddiadau.	**Diweddariadau gan y 'Grŵp Pwerau Cymhellol' i'w darparu yng nghyfarfodydd PALG yn y dyfodol.**
CYFARFODYDD 2020			
10/03/2020	**1.** Diweddariad gan y Tîm Cydraddoldeb a Chynhwysiant **2.** Y Defnydd o Rym yn erbyn Plant **3.** Stopio a Chwilio o Data ar Stopio a Chwilio o Adroddiad ar Anghymesuredd o Diweddariad gan Dîm y Comisiynydd	**Diweddariad gan y Tîm Cydraddoldeb a Chynhwysiant** • Cytundeb gan y grŵp i gael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yr heddlu. **Y Defnydd o Rym yn erbyn Plant** • Ailystyried adborth blaenorol gan PALG. • Roedd yr adborth yn canolbwyntio ar y defnydd o rym yn erbyn pobl agored i niwed, yn enwedig o ran oedran, a'r angen i'r Heddlu ddeall yr amgylchiadau i'r unigolion dan sylw yn well, y tu hwnt i'r data. **Stopio a Chwilio** • Mynegwyd pryderon ynghylch y grym anghymesur a ddefnyddir yn erbyn unigolion Du. Nodwyd bod hyn yn gyfrannol uwch na chyfraddau stopio a chwilio. Gofynnodd y grŵp am ddadansoddiad manwl o ddata demograffig	**Diweddariadau rheolaidd am gynnydd amcanion y Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd i gael eu darparu mewn cyfarfodydd PALG yn y dyfodol.** **Nododd yr Heddlu, o ganlyniad i waith craffu PALG, fod anghysondeb cofnodi data wedi cael ei ddarganfod yn y system, a oedd yn arwain at wallau o ran nifer y plant yr oedd yn ymddangos bod grym yn cael ei ddefnyddio yn eu herbyn. Roedd yr Heddlu bellach yn adolygu cofnodion i gywiro'r gwall ac mae wedi dip-samplu cofnodion o blant er mwyn helpu i feithrin dealltwriaeth o'r amgylchiadau pan ddefnyddir grym yn yr achosion hyn.** **Bydd tîm Cydraddoldeb a Chynhwysiant Heddlu De Cymru yn mynd ati nawr i astudio'r data ar anghymesuredd a bydd yn**

		a'r math o rym a ddefnyddir yn erbyn pob categori ethnig lleiafrifol. • Roedd diddordeb gan y grŵp mewn deall sut roedd sgiliau tactegol llafar yn cael eu defnyddio gydag unigolion nad oeddent yn siarad Saesneg a sut y gwnaed ymdrechion i dawelu digwyddiadau pan oedd iaith yn rhwystr.	**rhannu canlyniad yr adolygiad hwn â thîm y Comisiynydd ac aelodau PALG.** **Gofynnodd tîm y Comisiynydd i Heddlu De Cymru ystyried hyn yn y dyfodol.**
03/06/2020	**1.** <u>Y diweddaraf am COVID-19</u> ○ Diweddariad gan Dîm y Comisiynydd am faterion plismona a phartneriaeth mewn perthynas â COVID-19. ○ Adroddiad Ffocws Dioddefwyr De Cymru – Materion yn ymwneud â COVID-19 **2.** <u>COVID-19 – Cyflwyniad gan Heddlu De Cymru ar ymatebion a phryderon</u>	**<u>COVID-19</u>** • Gofynnodd y grŵp a ellid dadansoddi data'r heddlu ar ymddygiad gwrthgymdeithasol ac achosion o dorri rheolau COVID-19 ymhellach yn grwpiau oedran. • Mynegwyd pryder y gall plant agored i niwed wynebu risg uwch am nad ydynt yn yr ysgol a bod posibilrwydd nad yw teuluoedd yn cael cymorth nac atgyfeiriadau at wasanaethau. • Ehangwyd y pryder i gynnwys grwpiau eraill y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt, cyfradd y gorchmynion diogelu rhag trais domestig a gyflwynwyd a sut roedd dioddefwyr yn cael help gyda llety. • Nodwyd bod diffyg cofnodion ethnig, neu anghysondeb yn hyn o beth, ar ffurflenni Hysbysiadau Cosb Benodedig mewn perthynas â Covid yn broblem gan y byddai hyn yn effeithio ar y gallu i fonitro anghymesuredd.	**Mewn cyfarfod PALG diweddarach, rhoddodd yr heddlu adroddiad ar wybodaeth yn ymwneud â data diogelu ar gyfer oedolion agored i niwed. Roedd hyn yn rhy gymhleth i'w fesur o ran y mathau o achosion a chofnodi lleoliadau ar systemau. Fodd bynnag, rhoddwyd sicrwydd fod cyfarfodydd strategol misol ar ddiogelu'r cyhoedd yn monitro gwahanol ddangosyddion natur agored i niwed ac yn sicrhau y defnyddir ymatebion ac adnoddau priodol. Roedd bylchau o ran cofnodi data ar ethnigrwydd yn cael eu harchwilio gan yr Heddlu er mwyn sicrhau ansawdd a chywirdeb y data.** **Gofynnodd yr Heddlu am wybodaeth am y broses o gofnodi Hysbysiadau Cosb Benodedig o ran casglu data ar ethnigrwydd a sicrhawyd PALG mewn cyfarfod diweddarach fod data yn cael eu casglu'n briodol, a bod data coll yn cael eu dilysu yn erbyn fideo o gamerâu a wisgir ar y corff er mwyn sicrhau nad yw ffigurau'n cael eu camystumio.**

			Datgelodd adolygiad o sampl ehangach o ddata perfformiad ar gyfer cofnodi ethnigrwydd fylchau mewn cofnodion, yn rhannol am nad oedd rhaid cwblhau'r meysydd data hyn ac roedd y gallu i newid hyn yn gyfyngedig am ei bod yn system genedlaethol. Roedd yr Heddlu yn goruchwylio'r mater ac yn annog y gweithlu i gwblhau'r wybodaeth ar gofnodion. **Dangosodd ymholiadau pellach fod amharodrwydd posibl ymhlith staff y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus i ofyn am fanylion am ethnigrwydd y rhai sy'n ffonio, yn enwedig mewn argyfwng. Mae'r Heddlu yn ystyried y cyngor rheoli â Phennaeth y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch hwn.**
25/09/2020	**1.** Y diweddaraf am Dechnoleg Adnabod Wynebau yn Awtomatig (AFR) **2.** Cydraddoldeb ac Anghymesuredd Hiliol ○ Trafodaeth Grŵp	**Y Diweddaraf am AFR** • Nododd partneriaid PALG fod adborth cymunedol a gafwyd gan geiswyr lloches yn ymwneud â mynediad at AFR gan Lu Ffiniau'r DU. **Anghymesuredd Hiliol**	**Tîm y Comisiynydd i ddangos fideo o gamerâu a wisgir ar y corff mewn cyfarfod PALG yn y dyfodol.**
09/12/2020	**1.** Cyflwyno Aelodau Annibynnol o'r Gymuned	**Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd**	**Mae cyfraniadau PALG at drafodaethau am y Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd wedi sicrhau**

	2. Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd ○ Diweddariad ar amcanion a thrafodaeth grŵp **3.** Strategaeth Dioddefwyr	**Strategaeth Dioddefwyr**	**bod blaenoriaethau megis Niwroamrywiaeth yn rhan o'r cynllun.** **Gwahoddwyd PALG i rannu adborth ar y Strategaeth Dioddefwyr â thîm y Comisiynydd.**
CYFARFODYDD 2021			
23/03/2021	**1.** Cydberthnasau Cymunedol yn dilyn digwyddiadau diweddar ○ Trafodaeth **2.** Rheoli Ymddygiad Afresymol gan Achwynwyr ○ Cyflwyniad a thrafodaeth	**Cydberthnasau Cymunedol** • Cynigiodd un o aelodau PALG syniadau ynghylch cynnwys cyn-droseddwyr sydd wedi newid eu ffordd a'u profiad bywyd mewn cynlluniau ymgysylltu a chyfathrebu ynghylch trosedd. **Ymddygiad Achwynwyr** • Roedd y grŵp yn cytuno'n gyffredinol â chynigion yr heddlu ar y strategaeth ac yn deall y bwriadau.	**Gofynnodd yr Heddlu am gyfarfod â'r aelod o PALG i drafod syniadau ymhellach.**
15/06/2021	**1.** Tensiynau Cymunedol a Chydlyniant Cymunedol ○ Diweddariad **2.** Troseddau Casineb Ar-lein ○ Adroddiad a thrafodaeth	**Tensiynau Cymunedol** • Cais gan PALG am gael gweld yr adroddiad ar ddigwyddiadau diweddar. **Troseddau Casineb Ar-lein** • Aelod o PALG wedi gofyn am yr eitem hon ar yr agenda oherwydd cynnydd mewn casineb ar-lein a dirywiad mewn hyder i adrodd.	**Yr Heddlu i rannu'r adroddiad ar yr hyn a ddysgwyd ac argymhellion mewn perthynas â digwyddiadau tensiynau cymunedol diweddar â PALG mewn cyfarfod yn y dyfodol.** **Sefydlu "Abertawe Mwy Diogel" yn ardal Orllewinol yr Heddlu, sy'n nodi tensiynau a phryderon a drafodir yn ystod cyfarfodydd diogelwch cymunedol.**
08/09/2021	**1.** Cynigion Gweithredu Cadarnhaol ar gyfer Gweithlu Cynrychioliadol	**Gweithredu Cadarnhaol**	

	○ Cwestiynau, trafodaeth, ac adborth **2.** <u>Ymholiad mewn perthynas ag ymateb yr heddlu i Gamfanteisio Rhywiol</u>	• Trafododd aelodau y materion ynghylch recriwtio a chadw. Yn benodol, adborth uniongyrchol gan y gymuned ethnig leiafrifol ifanc yn ardal Bae Caerdydd a diffyg diddordeb mewn ymuno â'r Heddlu. Nodwyd bod materion Stopio a Chwilio yn achosi problemau gydag ymddiriedaeth ymhlith y gymuned. **<u>Camfanteisio'n Rhywiol</u>** • Gofynnodd aelod o PALG am i'r eitem hon gael ei chynnwys ar yr agenda mewn perthynas ag ymateb yr heddlu wrth nodi pobl sy'n agored i niwed yn y sector lletygarwch. • Roedd syniadau i wella diogelu yn y maes hwn yn cynnwys: sianeli adrodd a chyfathrebu gwell rhwng swyddogion a gwestai, hyfforddiant i staff lletygarwch ar nodi arwyddion camfanteisio rhywiol a dioddefwyr posibl fel rhan o ofynion trwyddedu. • Nodwyd nad yw gwaith rhyw yn anghyfreithlon a bod angen parhau i ganolbwyntio ar yr elfen o gamfanteisio yn hytrach na'r dewis o broffesiwn er mwyn peidio â stigmateiddio pobl.	**Cynrychiolydd yr Heddlu i gysylltu â'r aelod o PALG er mwyn trafod syniadau ar ffyrdd gwell o gynnwys y sector lletygarwch mewn cynlluniau i fynd i'r afael â chamfanteisio rhywiol.** **Cynrychiolydd yr Heddlu i godi'r pwyntiau a wnaed gyda'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a'r gweithgor cenedlaethol.** **Cynrychiolydd yr Heddlu i drafod ymgorffori pwyntiau yn y gofynion trwyddedu ar gyfer y sector lletygarwch â'r Arweinydd Gweithredu Trwyddedu.** **Yr Heddlu i gadarnhau bod cynllun camfanteisio ar waith gan Fwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro, a bod Grŵp Amlasiantaethol Economi Liw Nos bellach wedi'i sefydlu.** **Mae'r Heddlu yn gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu pecyn hyfforddiant ar gyfer y diwydiant lletygarwch.**
09/12/2021	**1.** <u>Ymateb yr Heddlu i Ddiogelwch Menywod a Merched</u>	**<u>Diogelwch Menywod a Merched</u>**	

	○ Barn Pobl Ifanc am Ddiogelwch Menywod a Merched ○ Safonau Proffesiynol a Phrosesau Fetio'r Heddlu: Data a Chyflwyniad ○ Dulliau Cyfathrebu Heddlu De Cymru â'r Cyhoedd: Cyflwyniad ○ Cwestiynau a Thrafodaeth/Adborth	• Gofynnodd aelod o PALG am i'r eitem hon gael ei chynnwys ar yr agenda mewn perthynas ag ymateb yr heddlu i ddigwyddiadau diweddar yn y DU a phryder ynghylch fetio swyddogion. • Mynegodd Cymorth i Ddioddefwyr bryder am nad oedd y sefydliad wedi cael yr un datgeliad nac atgyfeiriad gan ddioddefwyr neu dystion a oedd yn swyddogion yr heddlu; cynigiwyd bod hyn oherwydd bod y cysylltiad rhwng yr heddlu a'r asiantaeth yn peri rhwystr. Trafododd Ffocws Dioddefwyr bwysigrwydd sicrhau bod yr Heddlu ac asiantaethau partner yn cydweithio er mwyn hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael i fenywod a merched yn ardal Abertawe.	**Cynrychiolwyr yr Heddlu i gysylltu er mwyn trafod sut y gall Cymorth i Ddioddefwyr wella atgyfeiriadau ar gyfer swyddogion a staff yr heddlu sy'n ddioddefwyr neu'n dystion.** **Cynrychiolwyr yr Heddlu i gysylltu â Ffocws Dioddefwyr i drafod cyfathrebu ar y cyd mewn perthynas â hyrwyddo lleoedd diogel yn ardal Abertawe.**
CYFARFODYDD 2022			
30/03/2022	**1.** <u>Cydberthnasau Cymunedol ac Atebolrwydd yr Heddlu</u> ○ Y digwyddiad ym Mayhill a chanfyddiadau'r adroddiad diweddar **2.** <u>Stopio a Chwilio</u>	**<u>Mayhill</u>** • Heriodd aelodau PALG brosesau penderfynu'r Heddlu ar y diwrnod, a sut y byddai'r Heddlu yn paratoi ar gyfer y dyddiad pan fyddai'n flwyddyn ers y digwyddiad. **<u>Stopio a Chwilio</u>** • Heriodd aelodau PALG yr Heddlu ynghylch sut roedd yn mynd i'r afael ag achosion parhaus o anghymesuredd hiliol a rhagfarn ddiarwybod ymhlith swyddogion.	**Trafodwyd canfyddiadau'r adolygiad o ddigwyddiad, y camau nesaf a'r broses o roi argymhellion ar waith â PALG.** **Nododd yr Heddlu fod cyfraddau cydymffurfio Camerâu Fideo a Wisgir ar y Corff wedi cynyddu i 98% ers cyflwyno paneli craffu allanol. Mae'r gwaith o greu Panel Ieuenctid bellach yn mynd rhagddo.** **Mae prosesau dip-samplu, gwiriadau sicrhau ansawdd ac adolygiadau anghymesuredd datblygedig wedi cael eu cyflwyno.**

		• Cyfeiriwyd at achos Plentyn Q (pan gafodd merch yn ei harddergau ei noeth-chwilio gan Heddlu arall) a gofynnwyd i HDC a allai ddarparu manylion ar nifer y chwiliadau personol a gynhaliwyd ar blant.	**Rhoddodd Arweinydd yr Heddlu arddangosiad o adnodd data gwybodaeth busnes yr Heddlu er mwyn dangos sawl noeth-chwiliad o blant a gynhaliwyd.**
15/06/2022	**1.** Gwrthderfysgaeth – 'Rhaglen Prevent' ○ Cyflwyniad a thrafodaeth **2.** Y diweddaraf am waith gyda ffoaduriaid Wcráin	**Gwrthderfysgaeth** • Mynegwyd pryder ynghylch lefel yr ymwybyddiaeth ymhlith rhieni ac addysgwyr o beryglon gemau ar-lein a grwpiau ar y cyfryngau cymdeithasol fel ffyrdd o radicaleiddio unigolion a'u recriwtio i sefydliadau terfysgol neu eithafol. • Cwestiynwyd gallu'r heddlu i gadw i fyny â'r newidiadau hyn mewn technoleg a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol newydd/ymylol hefyd. • Beirniadwyd cyflwyniad yr Heddlu am agweddau amrywiol, gan gynnwys peidio â gwahaniaethu rhwng salwch meddwl ac afiechyd meddwl difrifol gan y gall hyn stigmateiddio pobl sy'n agored i niwed yn anghywir, a dangosyddion agenda wrth-Fwslimaidd. • Gofynnwyd i'r cyflwyniad gwmpasu niwroamrywiaeth, ond prin y cyfeiriwyd at hyn ar y diwrnod. Nododd aelodau PALG fod angen ailystyried hyn yn fanylach mewn cyfarfod yn y dyfodol.	**Gofynnodd tîm y Comisiynydd i Arweinydd yr Heddlu ar gyfer Gwrthderfysgaeth am ymateb i'r adborth gan PALG. Cyflwynodd y Cadeirydd Annibynnol lythyr personol hefyd yn mynegi pryderon ynghylch cynnwys y cyflwyniad.**

28/09/2022	**1.** Troseddau Casineb **2.** Canlyniadau PALG – myfyrio ar 5 mlynedd	**Troseddau Casineb** • Cwestiynwyd ystadegau a thueddiadau Troseddau Casineb presennol mewn perthynas â hyder i adrodd a parodrwydd dioddefwyr i gysylltu, yn enwedig os ydynt yn ddioddefwyr mynych. • Trafododd aelodau PALG ffactorau amrywiol eraill mewn perthynas â throseddau casineb ag Arweinydd yr Heddlu, gan gynnwys: sut roedd nodweddion gwarchodedig yn cael eu monitro, safonau cofnodi data a throseddau, y gwath ymgysylltu sy'n cael ei wneud i helpu pobl i ddeall troseddau casineb, cysylltiadau'r heddlu ag ysgolion, proses graddio digwyddiadau ac amseroedd ymateb yr heddlu, ac atgyfeiriadau swyddogion at wasanaethau dioddefwyr.	**Arweinydd yr Heddlu ar gyfer Troseddau Casineb i roi data y gofynnwyd amdanynt i PALG ar ddioddefwyr mynych troseddau casineb, a thargedau ymateb yr Heddlu.** **Tîm y Comisiynydd i ofyn am ddata ar droseddau casineb gan Uned Boddhad Dioddefwyr yr Heddlu.**
14/12/2022	**1.** Technoleg Adnabod Wynebau ○ Cyflwyniad a thrafodaeth **2.** Pwnc At Wraidd y Mater: Camfanteisio ar Blant a Bregusrwydd	**Technoleg Adnabod Wynebau** • Codwyd cwestiynau gan aelodau Grŵp Atebolrwydd a Dilysrwydd yr Heddlu (PALG) am y canlynol: Casglu a chadw data delweddau Technoleg Adnabod Wynebau, gwaith dilynol yr heddlu ar ddelweddau positif sy'n cyfateb, canlyniadau cadarnhaol anghywir a stopio pob yn anghywir yn ystod archwiliadau technoleg adnabod wynebau, unrhyw ystyriaethau moesegol sy'n weddill, a hysbysu'r cyhoedd am y defnydd o Dechnoleg Adnabod Wynebau. **Pwnc At Wraidd y Mater**	**Rhoddodd Arweinydd yr Heddlu ddolen i'r wefan sy'n cynnwys gwybodaeth gyhoeddedig gan Heddlu De Cymru i aelodau PALG, sy'n cynnwys data ar hysbysiadau a gofnodwyd a chyfraniad swyddogion yr heddlu er mwyn craffu arnynt ymhellach.** **Mae trafodaethau ac adborth gan PALG yn helpu i lywio gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu â chymuned yr Heddlu ar Dechnoleg Adnabod Wynebau.** **Cafodd aelodau PALG a'i rwydweithiau partner dethol wahoddiad gan dîm y Comisiynydd i grŵp ffocws At Wraidd y**

		• Cododd aelodau PALG bryderon nad yw'r partneriaid ehangach sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r strwythurau partneriaeth statudol yn cael gwybod am y gwaith y mae'r Heddlu yn ei wneud yn ddigonol. Felly, ni allant fwydo eu hawgrymiadau na thynnu sylw at bryderon yn uniongyrchol er mwyn helpu i dorri'r cylch o ran plant coll ac achosion o gam-fanteisio ar blentyn. • Roedd y cwestiynau eraill a ofynnwyd yn son am gyfraniad Llinellau Cyffuriau ynghyd â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant. • Awgrymodd yr aelodau y gallant gymryd rhan yng ngwaith ymchwil grŵp ffocws penodol ar gyfer Bwrdd At Wraidd y Mater y tu allan i'r cyfarfod PALG, ac y byddai hyn yn rhoi cyfle i wahodd partneriaid ehangach i gymryd rhan.	**Mater ym mis Ionawr 2023. Cyhoeddwyd canfyddiadau'r ymchwil ym mhapur Bwrdd At Wraidd y Mater ym mis Chwefror 2023 a ffurfiwyd yr awgrymiadau a wnaed yn y grŵp ffocws fel argymhellion ar gyfer yr Heddlu. Bydd PALG yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y canlyniad hwn yn ystod ei gyfarfod ym mis Ebrill 2023.**
19/04/2023	1. <u>Ymateb Heddlu De Cymru i Adroddiad Fetio a Misogyni Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi, a digwyddiadau lleol a chenedlaethol.</u> 2. <u>Archwiliad Dwfn o Graffu ac Atebolrwydd – Canfyddiad y Cyhoedd o Blismona</u>	**<u>Ymateb Heddlu De Cymru i Adroddiad Fetio a Misogyni Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi, a digwyddiadau lleol a chenedlaethol.</u>** • Cafodd PALG gyflwyniad ar 'Safonau Proffesiynol – ymateb Heddlu De Cymru i'r adroddiad fetio diweddar. • Bu i aelodau PALG ystyried a gofyn cwestiynau am strategaethau a mentrau amrywiol yr heddlu i ddatblygu diwylliant a dulliau a ddefnyddir i fynd i'r afael â llygredd posibl.	**Cyflwynodd Heddlu De Cymru adroddiad ymateb i aelodau PALG a oedd yn cynnwys atebion i'r ymholiadau a godwyd yn ogystal â chynlluniau i fynd i'r afael â llygredd o fewn yr heddlu.** **Cynhaliodd tîm y Comisiynydd Archwiliad Dwfn o ganfyddiad y cyhoedd o blismona. Ymgynghorwyd ag aelodau o'r cyhoedd a sefydliadau partner yn ystod yr ymchwiliad. Gwnaed argymhellion i Heddlu De Cymru gryfhau ei ddull o gyfathrebu â'r cyhoedd i**

		<u>Pwnc Archwiliad Dwfn</u> • Gwahoddwyd aelodau i roi adborth ar ganfyddiad y cyhoedd o blismona cyn yr Archwiliad Dwfn sydd i ddod. • Trafododd y grŵp y dulliau amrywiol y bydd tîm y Comisiynydd yn eu defnyddio i gasglu adborth gan gymunedau gwahanol.	**roi gwybod iddynt am y gwaith a gaiff ei gwblhau yn yr ardal hon.**
19/06/2024	1. <u>Cam-drin Domestig: Ymateb Cychwynnol yr Heddlu</u> 2. <u>Archwiliad Dwfn o Graffu ac Atebolrwydd</u> – Cam-drin Domestig	**<u>Cam-drin Domestig: Ymateb Cychwynnol yr Heddlu</u>** • Rhoddwyd cyflwyniad i PALG ar Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Heddlu De Cymru ac ymateb cychwynnol yr heddlu i Gam-drin Domestig. • Rhoddodd aelodau PALG adborth ac argymhellion i Heddlu De Cymru mewn perthynas ag ymgysylltu â'r gymuned a chymorth arbenigol i ddioddefwyr. **<u>Archwiliad Dwfn o Graffu ac Atebolrwydd – Cam-drin Domestig</u>** • Cafodd aelodau PALG wahoddiad i fynychu sesiynau grŵp ffocws er mwyn cyfrannu at ymchwil Archwiliad Dwfn Tîm y Comisiynydd i	**Cynhaliodd tîm y Comisiynydd Archwiliad Dwfn i'r ymateb cychwynnol i gam-drin domestig. Ymgynghorwyd â goroeswyr cam-drin domestig, Heddlu De Cymru a sefydliadau partner yn yr ymchwil.** **Gwnaed argymhellion i Heddlu De Cymru gryfhau eu dulliau ar gyfer cynnwys goroeswyr cam-drin domestig mewn hyfforddiant swyddogion ac arferion wedi'u llywio gan drawma.**

		ymateb cychwynnol yr heddlu i gam-drin domestig. .	
15/09/2023	1. Prosiect ATAL 2. Rhaglen Gwrthderfysgaeth – ATAL	**Prosiect ATAL** • Rhoddwyd cyflwyniad i PALG ar Brosiect ATAL, y dull gweithredu Ymddygiad Gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â bywyd ar y stryd a bregusrwydd. **Rhaglen Gwrthderfysgaeth – ATAL** • Trafododd PALG wahodd ATAL, a oedd wedi mynychu cyfarfod yn flaenorol, yn ôl, er mwyn trafod unrhyw ddatblygiadau.	**Rhoddodd PALG adborth defnyddiol i Heddlu De Cymru ar Brosiect ATAL a phwysigrwydd hyfforddiant i'r PCSOs ymdrin â hyn. Cododd PALG bwyntiau mewn perthynas â Heddlu De Cymru yn defnyddio taflenni / dolenni i'r we a'r anawsterau i'r rheini nad oedd technoleg ar gael iddynt.**
8/12/2023	1. Gofal Cywir Person Cywir 2. Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd – Ymateb Cyfathrebu'r Heddlu i Ddigwyddiadau Critigol/Mawr	**Gofal Cywir Person Cywir** • Darparodd Heddlu De Cymru gyflwyniad ar 'Gofal Cywir Person Cywir', sef menter a ddatblygwyd gan Heddlu Glannau Humber i sicrhau bod y bobl sy'n galw'r heddlu yn cael y cymorth a'r gwasanaeth gorau. • Cyflwynwyd y camau gwahanol ar gyfer cyflwyno 'Gofal Cywir Person Cywir' i PALG. • Rhoddodd PALG adborth i Heddlu De Cymru mewn perthynas ag amserlenni, effaith ar y rhai o gefndiroedd wedi'u hymyleiddio'n hiliol neu	**Rhoddodd Heddlu De Cymru grynodeb i PALG o ran y canfyddiadau cychwynnol o gam cyntaf Gofal Cywir Person Cywir. Roedd y briff yn cynnwys manylion ar sut y mae disgwyl i adnoddau a ddefnyddir yn nodweddiadol ar gyfer digwyddiadau Pryder am Les gael eu hailddosbarthu.**

		nodweddion gwarchodedig a chanfyddiadau'r cyhoedd o Gofal Cywir Person Cywir. **<u>Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd – Ymateb Cyfathrebu'r Heddlu i Ddigwyddiadau Critigol/Mawr</u>** • Cyflwynodd tîm y Comisiynydd ganlyniadau Archwiliadau Dwfn blaenorol i Ganfyddiad y Cyhoedd o Blismona a Cham-drin Domestig. Gwnaeth tîm y Comisiynydd hefyd gyflwyno ffocws yr Archwiliad Dwfn nesaf; Ymateb Cyfathrebu'r Heddlu i Ddigwyddiadau Critigol/Mawr.	
12/03/2024	1. <u>Ymgyrch Signa</u> 2. <u>Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd – Adborth o Archwiliadau Dwfn diweddar ac ymatebion i ddigwyddiadau critigol diweddar</u>	**<u>Ymgyrch Signa</u>** • Rhoddodd Heddlu De Cymru gyflwyniad ar 'Ymgyrch Signa', sef y gwaith ymgysylltu/allgymorth gyda sefydliadau allanol sydd fel arfer yn ymdrin ag unigolion a allai fod yn agored i niwed. **<u>Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd – Adborth o Archwiliadau Dwfn diweddar ac ymatebion i ddigwyddiadau critigol diweddar</u>** • Rhoddodd tîm y Comisiynydd ddiweddariad ar yr Archwiliad Dwfn sydd i ddod ar ymateb Cyfathrebu'r Heddlu i Ddigwyddiadau Critigol a Mawr.	**Cafodd aelodau PALG sicrwydd fod y gwaith hwn yn cael ei gwblhau a bod adran yn bodoli er mwyn gweithio gydag asiantaethau ac adnabod arwyddion o ddangosyddion. Gall astudiaethau achos fod yn well adnoddau tystiolaeth offer a thynnu sylw at y maes gwaith yn well.** **Cafodd yr Uned Atal Llygredigaeth adborth gan PALG ar y cyflwyniad y bwriedir iddo fynd i bartneriaid. Ystyriwyd yr adborth gan y tîm sydd bellach wedi adolygu ei gyflwyniad.**

20/09/2024	1. Ymateb i Densiynau Cymunedol - Ymgyrch Attalea 2. Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd – Papur diweddaru	**Ymgyrch Attalea** • Rhoddodd Heddlu De Cymru gyflwyniad ar 'Ymgyrch Attalea', sef yr ymateb i'r Anrhefn Cenedlaethol yn Southport. Rhoddodd PALG adborth defnyddiol i Heddlu De Cymru ar Ymgyrch Attalea wrth nodi pwysigrwydd bregusrwydd y cyhoedd gan gynnwys sefydliadau. Yr effaith ar wasanaethau eraill a oedd yn darparu cymorth a'u diogelwch ac awgrymiadau ar gyfer cymorth yn y dyfodol. Tynnwyd sylw at ymgysylltu a chyfathrebu â'r gymuned. Cydnabuwyd nad yw hyn mewn perthynas â phlismona yn unig ond ag asiantaethau eraill hefyd. **Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd – papur diweddaru ysgrifenedig** Dosbarthwyd papur diweddaru i bob aelod o PALG gan roi gwybod iddynt y bydd yr Archwiliad Dwfn nesaf yn seiliedig ar y Ddalfa. Bydd craffu yn digwydd ar flaengynllunio pan fydd y cynllun Heddlu a Throseddu newydd yn cael ei gyhoeddi.	**Gofynnwyd cwestiynau i Heddlu De Cymru a bydd yn eu hystyried i'w hadolygu ymhellach.** **Bydd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu newydd yn cael ei wahoddiad i un o gyfarfodydd PALG yn y dyfodol.**

11/12/24	1. Diweddariad ar Gynllun yr Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder De Cymru 2. Cyflwyniad Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol Cymru 3. Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd – Adborth Archwiliad Dwfn ar y Ddalfa	**Cynllun Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder De Cymru** Rhoddodd Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wybod i aelodau PALG fod Cynlluniau'r Heddlu a Throseddu yn ofyniad statudol o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011. Mae'n rhaid gosod amcanion ar gyfer plismona, lleihau troseddau ac anhrefn, a chyflawni swyddogaethau cenedlaethol neu ryngwladol yr heddlu. Er mwyn ymgysylltu â Chymunedau De Cymru, cynhaliwyd ymgynghoriad â'r cyhoedd, drwy arolwg ar-lein, wyneb yn wyneb, sgyrsiau a gafodd eu hwyluso gan grwpiau llawr gwlad ac adborth gan ymweliadau'r Comisiynydd. Cadarnhaodd Cadeirydd PALG fod hyn yn ddiweddariad defnyddiol er mwyn deall rôl Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. **Cyflwyniad Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol Cymru** Rhoddodd yr Uwch-arweinydd Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol ddiweddariad ar y cynllun gweithredu a'r cynnydd hyd yma. Rhoddwyd hefyd ddiweddariad ar yr ymgysylltiad a'r mentrau sydd wedi cael eu creu, yn cynnwys y Panel Goruchwylio a Chynghori Annibynnol. Mae gan y panel hwn aelodau o gefndiroedd amrywiol a fydd yn gweithio gyda Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r gwahaniaethu systemig a'r anfanteision y mae pobl Ddu ac Ethnig Leiafrifol yn y System Cyfiawnder Troseddol yn eu hwynebu. Bydd y panel yn	**Bydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn bresennol ac yn cyflwyno Cynllun Troseddu a Chyfiawnder newydd yr Heddlu yn y cyfarfod ym mis Mawrth 2025.** **Rhoddwyd copi o'r cynllun blynyddol a gwybodaeth bellach am y panel i PALG, a bydd diweddariad ar y maes gwaith hwn yn cael ei roi i PALG bob blwyddyn.**

		chwarae rhan allweddol yn herio, yn hyrwyddo ac yn rhoi cyngor ar ddull Cymru o fynd i'r afael â hiliaeth. **Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd** – Adborth Archwiliad Dwfn ar y Ddalfa Rhoddodd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu drosolwg o Archwiliad Dwfn ar y Ddalfa a ddigwyddodd yn ddiweddar. Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau wedi cael gwybod am argymhellion yr adroddiad a nodwyd ac a ddarparwyd i'r Heddlu, ac mae'n aros am ymateb ffurfiol gan yr Heddlu ar hyn o bryd i'r argymhellion a roddwyd a all wedyn helpu gyda'r gwaith o ysgrifennu'r blaengynllun Craffu.	**Caiff y dogfennau eu rhannu â PALG yn y dyfodol.**